
Adolygiad Diogelu Unedig Sengl
Single Unified Safeguarding Review

# Nodyn Briffio 7 munud ADUS

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, e-bostiwch: ADUSCymru@llyw.cymru




**Y CEFNDIR**

Creu proses adolygu sengl lle bo galw am ddull amlasiantaeth. Bydd y broses yn ymgorffori'r prosesau adolygu canlynol: Adolygiad Ymarfer Oedolion; Adolygiad Ymarfer Plant; Adolygiad Lladdiad Domestig; Adolygiad Lladdiad Iechyd Meddwl; Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol. Yna defnyddir yr adroddiad terfynol i lywio ymarfer proffesiynol drwy Storfa Ddiogelu Cymru.

**HYNT Y GWAITH**

- Bwrdd Gweinidogol ADUS wedi'i gynnal ar 15 Tachwedd, dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog, Mark Drakeford.
- Cyfarfodydd yn parhau gyda'r Swyddfa Gartref i sicrhau diwygiadau ganddynt i ganllawiau DHR i gyd-fynd ag ADUS.
- Yr enwebiadau cyntaf wedi cyrraedd ar gyfer y Rhestr Cadeiryddion ac Adolygwyr Cymeradwy ac rydym yn edrych ymlaen at gael rhagor.

**Y CAMAU NESAF**

- Cyn hir bydd sesiwn friffio ADUS yn cael ei threfnu gyda Rheolwyr Busnes Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a rheolwyr Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i baratoi at weithredu.
- Bydd Bwrdd Diogelu'r Canolbarth a'r Gorllewin yn cychwyn hyfforddiant peilot ADUS ar gyfer cadeiryddion ac adolygwyr cyn hir.
- Mae Dangosfwrdd ADUS yn cael ei ddatblygu i roi cipolwg a data allweddol i bartneriaid allweddol ar adolygiadau ADUS byw a'r cynnydd yn erbyn Argymhellion a Chamau Gweithredu.

**DIWEDDARIAD HYB CYDGYSYLLTU ADUS**

- Bu newidiadau'n ddiweddar yn nhîm ADUS ac rydym yn falch o groesawu Louise Fradd i rannu swydd gyda Liane James fel Swyddog Ymgysylltu Strategol. Cyn hir byddwn yn mynd ati i recriwtio Swyddog Polisi newydd yn dilyn ymadawiad trist Becky Twose sydd wedi cael swydd newydd fel Swyddog Polisi yn swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys – llongyfarchiadau Becky!

**Y GRŴP CYFEIRIO DIODDEFWYR A THEULUOEDD**

- Mae'r Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd yn cyfarfod ar 30 Tachwedd i ddatblygu Cynllun Ymgysylltu i sicrhau bod gwrthrych yr adolygiad, y teulu a'r prif unigolion yn parhau i fod wrth wraidd y broses, ac i ddatblygu canllaw arferion da

**DIWEDDARIAD AR STORFA DDIOGELU CYMRU**

- Ar ôl 2 rownd o brofion defnyddwyr wyneb yn wyneb, cynhelir cam pellach o brofion ar-lein. Cysylltwch ag ADUSCymru@llyw.cymru os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan.

**CYFARFOD BWRDD GWEINIDOGOL ADUS**

- Cafwyd diweddariad ar Storfa Ddiogelu Cymru – gweler yma
- Rhoddwyd cyflwyniad ar y prif faterion sy'n codi o'r ymgynghori ar Ganllawiau Statudol ADUS.
- Ymysg y camau sy'n codi o'r cyfarfod mae papur opsiynau i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar gapasiti a chyllid. Cyflwynir ADUS i Gyngor Partneriaeth Cymru fel arfer da. O ran rhannu gwybodaeth, partneriaid i ddefnyddio'r llwybr yn y Canllawiau Statudol diwygiedig, a'r broses uwchgyfeirio drwy'r Rhwydwaith Cymorth.
- Cyflwynodd Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru bapur yn nodi materion yn ymwneud â Phanel Sicrhau Ansawdd y Swyddfa Gartref. Bydd y Dirprwy Weinidog yn anfon llythyr am hyn at y Gweinidog priodol yn y Swyddfa Gartref.